**EPT-14-00 (min)**

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 13 Rhagfyr 2000 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:30 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Tom Middlehurst (hefyd fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai) | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai:***

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas, Cadeirydd (eitem 4) | Castell-nedd |
| Edwina Hart, Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (eitem 4) | Gwyr |
| Dai Lloyd (eitem 4) | Gorllewin De Cymru |
| Janet Ryder (eitem 4) | Gogledd Cymru |

***Yn bresennol:***

| | |
|---|---|
| David Purchon (eitem 3) | Ymchwilydd Annibynnol |

| | |
|---|---|
| Malcolm Thomas (eitem 4) | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Amgylcheddol a Chynllunio, CBS Pen-y-bont ar Ogwr – ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| Roger Thomas (eitem 4) | Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd – Cymru |
| Denys Morgan (eitem 5) | Ymgynghorydd Arbenigol |
| William Bee (eitem 5) | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Yr Athro Stuart Cole (eitem 5) | Prifysgol Gogledd Llundain |
| Sue Hall (eitem 5) | Clwb Teithio i Feicwyr |
| Wynford Lloyd Davies (eitem 5) | Mudiad Trafnidiaeth Gymunedol |
| Nich Pearson (eitem 5) | Cyngor Defnyddwyr Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| Bob Macey (eitem 4) | Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd |
| Hugh Payne (eitem 4) | Is-adran yr Amgylchedd |
| Alan Thornton (eitem 4) | Pennaeth yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol |
| Denzil Jones (eitem 5) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Kay Powell (eitem 6) | Pennaeth yr Is-adran Gynllunio |
| Chris Morgan (eitem 6) | Yr Is-adran Gynllunio |

***Ysgrifenyddiaeth:***

| | |
|---|---|
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Martin Stevenson (eitem 4) | Clerc y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai |

**Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion, a datganiad o fuddiant**

1.1 Yr oedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn oddi wrth John Griffiths.

1.2 Gwahoddwyd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5 a gwnaethpwyd hynny fel a ganlyn:

- Geraint Davies – aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Mick Bates - partner mewn busnes ffermio

**Eitem 2: Ethol y Panel Penodiadau Cyhoeddus**

2.1 Eglurodd y Cadeirydd fod angen newid aelodaeth y Panel Penodiadau Cyhoeddus yn sgîl y newidiadau a wnaethpwyd i aelodaeth y Pwyllgorau Pwnc ym mis Tachwedd. Bellach yr oedd gofyn i bob Pwyllgor Pwnc enwebu dau aelod i'r panel. Yr oedd Rheolwyr Busnes y Pleidiau wedi enwebu Mick Bates a Richard Edwards o Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

2.2 Mynegwyd pryder gan rai aelodau bod y ddau aelod a enwebwyd o Grwpiau Pleidiau'r Llywodraeth Bartneriaeth. Eglurodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar enwebiadau ar draws y Pwyllgorau Pwnc. Er mwyn cynnal cydbwysedd rhwng y pleidiau ar y panel yn gyffredinol, yr oedd y pwyllgor i fod i enwebu aelodau o'r Grwp Llafur a Grwp y Democratiaid Rhyddfrydol.

2.3 Etholodd y pwyllgor Mick Bates a Richard Edwards yn ffurfiol i'r panel penodiadau cyhoeddus.

**Eitem 3: Nantygwyddon: Adroddiad Cynnydd gan yr Ymchwilydd Annibynnol**

- EPT-14-00 (p 1)

3.1 Cyflwynodd David Purchon ei adroddiad cynnydd cyntaf i'r pwyllgor, a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd a wnaethpwyd ers cyhoeddi ei adroddiad:

- Yr oedd tystiolaeth wedi'i derbyn gan Asiantaeth yr Amgylchedd;

- Yr oedd CBS Rhondda Cynon Taf yn bwrw ymlaen â'r gwaith o baratoi tystiolaeth;

- Yr oedd Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol wedi cadarnhau y byddai'r swyddogion yn cynorthwyo'r ymchwiliad yn llwyr, a bwriad y Cynulliad oedd darparu'r holl dystiolaeth sy'n ofynnol. Fodd bynnag, gallai fod rhai cyfyngiadau ar ddadlennu un ai drwy gyfraith neu drwy gonfensiwn;

- Yr oedd y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch yn ymchwilio i faterion yn ymwneud â chyfrinachedd masnachol sy'n deillio o ddadlennu gwybodaeth;

- Gwahoddwyd y Cyngor Iechyd Cymuned lleol a'r Ymddiriedolaeth NHS i gymryd rhan yn yr ymchwiliad;

- Byddai Rheolwr Gyfarwyddwr Amgen Rhondda yn ymadael â'r cwmni'n fuan;

- Penodwyd Peter Wright i gynorthwyo gyda'r gwaith o holi dogfennau. Câi arbenigwyr annibynnol pellach eu penodi'n fuan i roi cyngor ar faterion tocsicoleg a materion meddygol.

3.2 Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau:

- Y cyfyngiadau a bennir gan "gonfensiwn" – yr oedd yn hanfodol bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhyddhau. Nododd yr aelodau mai eiddo Ysgrifennydd Gwladol Cymru, nid y Cynulliad Cenedlaethol, yw ffeiliau a phapurau'r Swyddfa Gymreig. Dim ond gyda chydsyniad yr awduron y gellir cyhoeddi rhai dogfennau, er enghraifft y rheini a gyflwynwyd ar sail preifatrwydd ac ymddiriedaeth. Pwysleisiodd y swyddogion y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhyddhau;

- Difenwi – nid yw tystiolaeth a roddir mewn sesiynau cyhoeddus yn wybodaeth freintiedig i ddibenion cyfraith ddifenwi. Yr oedd cymorth yn cael ei gynnig i dystion i sicrhau nad oedd eu datganiadau yn ddifenwol;

- Cyfrinachedd – byddai unrhyw wybodaeth a gynigir ar sail gyfrinachol yn cael ei chyfeirio i'r pwyllgor, gan y byddai'r ymchwilydd yn cyhoeddi'r holl dystiolaeth a dderbynnir.

3.3 Yr oedd yr Aelodau wedi'u plesio â'r cynnydd a wnaethpwyd, a diolchodd y Cadeirydd i David am ei adroddiad.

**Eitem 4: Adroddiadau gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd / Adroddiad Llifogydd** - EPT-14-00 (p 2) ac EPT-13-00 (p 3), EPT-14-00 (p 3A-C)

4.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai (LlLTh), a oedd wedi cael gwahoddiad oherwydd natur drawsbynciol yr eitem hon. Gwahoddwyd aelodau Pwyllgor LlLTh i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5 a gwnaethpwyd hynny fel a ganlyn:

- Janet Ryder - Aelod o Gyngor Tref Rhuthun

4.2 Cyflwynodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd yr Adroddiad Llifogydd, ac ynghyd â hynny cafwyd adroddiad interim gan Asiantaeth yr Amgylchedd – Cymru a datganiad gan CLlLC.

4.3 Dywedodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau mai ei bwriad oedd bod mor hyblyg â phosibl, o fewn cyfyngiadau cynllun Bellwin, wrth ystyried hawliadau a gyflwynir gan awdurdodau lleol.

4.4 Wrth gyflwyno adroddiad interim Asiantaeth yr Amgylchedd, estynnodd Roger Thomas ei gydymdeimlad â phawb yr oedd y llifogydd diweddar wedi effeithio arno. Awgrymodd y gellid cynnwys perygl llifogydd o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol i sicrhau bod plant yn ymwybodol o'r risg.

4.5 Cyflwynodd Malcolm Thomas ddatganiad CLlLC a phwysleisiodd nad yw awdurdodau lleol yn wasanaeth argyfwng, er eu bod yn darparu gwasanaethau mewn argyfyngau.

4.6 Nodir isod y prif bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth:

- Partneriaeth – Yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdodau Lleol wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd ar yr arolwg llifogydd;

- Cynllun Bellwin – mae hwn yn rhoi cymorth tuag at gostau refeniw y camau gweithredu a gymerir ar unwaith, a nododd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ei bod yn ystyried ymestyn cyfnod y digwyddiad y ceir cyflwyno hawliadau mewn perthynas ag ef. Nid oedd pob awdurdod lleol wedi cyflwyno gwybodaeth i'r swyddogion, ac anogodd y Gweinidog hwy i wneud hynny'n gyflym. Yr oedd yr aelodau'n awyddus i waith gwella, nid dim ond gwaith adfer, gael ei gyllido. Pwysleisiodd y Gweinidog y câi pob hawliad ei ystyried yn y ffordd fwyaf hyblyg posibl, o fewn telerau'r cynllun. Y tu allan i gynllun Bellwin, yr oedd £3m ychwanegol eisoes wedi'i ddyrannu ar gyfer gwelliannau atal llifogydd, a byddai'r Gweinidogion yn trafod y gofynion cyllido tymor hwy gydag awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

- Hyder y cyhoedd – yr oedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cymryd camau i dawelu meddyliau perchenogion tai pan oedd yn ddiogel iddynt i ddychwelyd i'w cartrefi;

- Rolau a chyfrifoldebau – yr oedd angen egluro i'r cyhoedd beth yw rôl y gwahanol asiantaethau sydd â chyfrifoldebau atal llifogydd ac amddiffyn rhag llifogydd;

- Pwyllgorau atal llifogydd – os mai'r bwriad oedd newid o bwyllgorau lleol i rai rhanbarthol, dylid rhoi pwyslais ar bwysigrwydd gwybodaeth leol;

- Caniatâd cynllunio – gofynnodd yr aelodau a ellid rhwystro awdurdodau cynllunio lleol rhag rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu ar orlifdiroedd cyn i'r canllawiau cynllunio a'r Nodyn Cyngor Technegol ategol gael eu hadolygu. Cadarnhaodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd y byddid yn cynghori awdurdodau cynllunio i ddilyn y canllawiau cynllunio cyfredol, sy'n mynnu eu bod yn cymryd canllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd ar y perygl llifogydd i ystyriaeth.

4.7 Addawodd Roger Thomas a Malcolm Thomas y byddent yn ymchwilio i rai o'r materion mwy manwl a godwyd gan yr aelodau.

4.8 Oherwydd diffyg amser, ni thrafodwyd Adroddiadau'r Gweinidog. Byddai'r Aelodau'n codi unrhyw gwestiynau gyda'r Gweinidog drwy ohebiaeth. Yr oedd GB Rail wedi ysgrifennu at y Gweinidog ynglyn â sylwadau a wnaethpwyd ganddi yn ei hadroddiad ar 29 Tachwedd (EPT-13-00 (p 3)). Yr oedd y rhain yn ffeithiol gywir, ond mae GB wedi tynnu sylw at y ffaith eu bod yn dal ag ymrwymiad llwyr i'r broses o ymgeisio am y fasnachfraint ac y byddai'r arian ar gael ganddynt pe byddent yn llwyddiannus. Yr oedd copi o'r llythyr ar gael i'r aelodau drwy wneud cais amdano.

**Eitem 5: Adolygu Polisi ar Drafnidiaeth Gyhoeddus** – EPT-14-00 (p 4)

5.1 Eglurodd y Cadeirydd fod hwn yn ail gyfle i'r pwyllgor glywed gan gyrff a oedd wedi cyfrannu at ei adolygiad polisi ar drafnidiaeth gyhoeddus, a chyfeirio cwestiynau atynt. Yr oedd yr aelodau wedi derbyn copïau o'r ymatebion i'r ymgynghori, a oedd ar gael hefyd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

5.2 Yr oedd hwn yn gyfle i'r cyflwynwyr grynhoi eu hymateb o dan 3 cham yr adolygiad, sef: materion y mae'r Ddeddf Trafnidiaeth yn debygol o effeithio arnynt; materion tymor byr ehangach; a newidiadau statudol a threfniadol hirdymor. Rhoddwyd cyflwyniadau byr gan y cyrff a ganlyn:

- Mudiad Trafnidiaeth Gymunedol (Cymru)
- Clwb Teithio i Feicwyr
- Comisiwn Hawliau Anabledd

- Cyngor Defnyddwyr Cymru

5.3 Crynhodd yr Athro Cole y prif faterion a gyflwynwyd yn ei bapur briffio. Trafodwyd y materion canlynol gyda'r cyflwynwyr mewn mwy o fanylder:

- Pwerau – dylai'r pwyllgor adael yr opsiwn o argymell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ceisio pwerau ychwanegol mewn perthynas â thrafnidiaeth yn agored;
- Strwythurau – cefnogai llawer o'r cyflwynwyr y cysyniad o Awdurdod Trafnidiaeth Teithwyr, neu gorff cydlynu cyffelyb, dros Gymru;
- Mynediad i bawb – yr oedd yn hanfodol bod trafnidiaeth gyhoeddus o fewn cyrraedd i bawb;
- Gwybodaeth – dylai gwybodaeth ddigonol fod ar gael cyn ac yn ystod siwrneiau, ar gerbydau'n enwedig;
- Trafnidiaeth gymunedol – nodwyd nifer o faterion, ac awgrymodd y Gweinidog y dylid sefydlu gweithgor i edrych ar ddarparu trafnidiaeth gymunedol.

5.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr i gyd am eu cyfraniadau. Byddai'r pwyllgor yn clywed gan ystod o gyrff dros y misoedd i ddod fel rhan o'i adolygiad polisi.

5.5 Byddai'r aelodau yn mynd ar ymweliadau yn ystod tymor y gwanwyn i edrych ar enghreifftiau o'r arferion gorau. Cytunodd y pwyllgor y dylai pedwar aelod fynd ar bob ymweliad, ac y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

**Eitem 6: Drafft Terfynol Polisi Cynllunio Mwynau Cymru** – EPT-14-00 (p 5)

6.1 Gwahoddodd Sue Essex yr aelodau i fynegi eu barn ar ddrafft terfynol Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, ac eglurodd y byddai Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau yn cael eu hychwanegu at y canllawiau. Yr oedd Nodiadau Cyngor Technegol ar Fwynau ar gyfer Agregiadau a Glo wrthi'n cael eu paratoi a byddai'r pwyllgor yn eu hystyried ar eu ffurf ddrafft yn nhymor y gwanwyn.

6.2 Cymeradwyodd y pwyllgor y canllawiau drafft. Croesawai'r aelodau y pwyslais ar gymryd ystyriaethau cymdeithasol i ystyriaeth, ac yr oeddynt yn falch o weld y pwyslais ar bolisïau a seilir ar feini prawf.

**Eitem 7: Rhaglen Waith Ddrafft – tymor y gwanwyn 2001** – EPT-14-00 (p 6)

7.1 Ceisiodd y Cadeirydd farn yr aelodau am y rhaglen waith ddrafft ar gyfer tymor y gwanwyn. Cymeradwyodd y pwyllgor y drafft, ond yr oedd yn ymwybodol bod y baich gwaith yn un trwm. Gofynnodd yr aelodau i'r Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal sesiynau ychwanegol er mwyn i'r aelodau gael trafod casgliadau'r adolygiad polisi ar drafnidiaeth gyhoeddus wrth i'r rheini ddod i'r amlwg.

7.2 Câi'r sesiwn ar gyfer manylu ar y Gweinidog ei symud i 14 Chwefror, gan nad oedd rhai o'r aelodau ar gael ar 31 Ionawr.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfodydd ar 15 a 29 Tachwedd** – EPT-12-00(min) ac EPT-13-00(min)

8.1 Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 a 29 Tachwedd.

**Papurau i'w nodi** - EPT-14-00 (p 7) ac LGH-15-00 (p 4)

9.1 Yr oedd y Nodyn Cyngor Technegol drafft ar Wastraff wedi'i gyflwyno fel papur i'w nodi, ond byddai'r Gweinidog yn croesawu unrhyw sylwadau. Nodwyd mai hwn oedd y drafft cyntaf i'w lunio gan Grwp Ymgynghorol Technegol. Croesawai'r aelodau y ffaith eu bod yn cael cyfle i gyflwyno'u sylwadau ar Nodiadau Cyngor Technegol drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi i ymgynghori yn eu cylch. Cytunwyd y byddid yn tynnu sylw at Nodiadau Cyngor Technegol drafft yn Adroddiad y Gweinidog o hyn allan gyda sylwadau i'w derbyn ar ffurf gohebiaeth.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

10.1 Câi cyfarfod nesaf y pwyllgor ei gynnal am 2.00 pm ddydd Mercher 17 Ionawr 2001 yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Rhagfyr 2000**